# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(44)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 14 cwestiwn. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:24.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: y wybodaeth ddiweddaraf am Gyngor Sir Ynys Môn

Dechreuodd yr eitem am 14:38.

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

Dechreuodd yr eitem am 15:00.

### 5. Dadl ar: Mae Addysgu'n Gwneud Gwahaniaeth

Dechreuodd yr eitem am 15.31

**NDM4908 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth yn allweddol er mwyn trawsnewid perfformiad ysgolion, a

2. Yn croesawu'r camau a gymerwyd i gyflwyno Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol o'r hydref hwn ymlaen, a'r ffaith bod safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, gan gynnwys gofynion o ran llythrennedd a rhifedd, wedi'u cyflwyno, ynghyd â'r rheoliadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod cyfraniad nifer o athrawon ac arweinwyr ysgol nodedig yng Nghymru fel sbardun allweddol i weddnewid perfformiad ysgolion.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn nodi â phryder yr asesiad yn Adroddiad Blynyddol 2010/11 Estyn bod "gostyngiad sylweddol" yn nifer yr enghreifftiau o addysgu 'ardderchog' neu 'rhagorol' a ganfuwyd.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â rheol Sefydlog 12.36**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym Mhwynt 2: Dileu 'croesawu'r' a rhoi 'nodi'r' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 38 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gwaith pellach ar adnabod a gwerthuso amrywiadau mewn safonau addysgu ledled Cymru a blaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn unol â hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 9 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod natur ddewisol y cymhwyster gradd Meistr yn golygu efallai na fydd anghenion hyfforddi'r holl athrawon newydd gymhwyso wedi cael sylw llawn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 13 | 38 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dilysu a monitro'r cymhwyster gradd Meistr yn cael ei wneud yn unol â'r safonau rhyngwladol uchaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 2 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 7 | 31 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4908 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn cydnabod cyfraniad nifer o athrawon ac arweinwyr ysgol nodedig yng Nghymru fel sbardun allweddol i weddnewid perfformiad ysgolion.

2. Yn nodi â phryder yr asesiad yn Adroddiad Blynyddol 2010/11 Estyn bod "gostyngiad sylweddol" yn nifer yr enghreifftiau o addysgu 'ardderchog' neu 'rhagorol' a ganfuwyd.

3. Yn croesawu'r camau a gymerwyd i gyflwyno Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol o'r hydref hwn ymlaen, a'r ffaith bod safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, gan gynnwys gofynion o ran llythrennedd a rhifedd, wedi'u cyflwyno, ynghyd â'r rheoliadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud gwaith pellach ar adnabod a gwerthuso amrywiadau mewn safonau addysgu ledled Cymru a blaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn unol â hynny.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dilysu a monitro'r cymhwyster gradd Meistr yn cael ei wneud yn unol â'r safonau rhyngwladol uchaf.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl ar: Hwyluso'r Drefn – ffordd newydd o reoleiddio yn y Diwydiant Amaeth**

Dechreuodd yr eitem am 16.26

**NDM4907 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi "Hwyluso'r Drefn – Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio"

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu 'nodi' a rhoi 'croesawu' yn ei le.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'n rheolaidd y wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd at gyflawni pob un o'r 74 o argymhellion yn unol â'r amserlenni ym mharagraff 17.1 o'r Adroddiad.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr adroddiad yn cydnabod y "Dylid ystyried unrhyw beth yn llai na'r canlyniadau hyn yn fethiant oni bai bod polisïau wedi pennu bod canlyniad gwahanol yn ddymunol."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi barn yr adroddiad bod Glastir wedi cael ei "gyflwyno'n rhy gynnar ac yn frysiog cyn bod cyfle i ddatblygu manylion polisi'r rhaglen yn iawn mewn partneriaeth go iawn gyda rhanddeiliaid."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 37 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4907 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn croesawu "Hwyluso'r Drefn - Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio".

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'n rheolaidd y wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd at gyflawni pob un o'r 74 o argymhellion yn unol â'r amserlenni ym mharagraff 17.1 o'r Adroddiad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **56** | **0** | **0** | **56** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

Cyfnod Pleidleisio

Dechreuoddy Cyfnod Pleidleisio am 17.12

Daeth y cyfarfod i ben am 17.15

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 8 Chwefror 2012**